

WYT TI'N CHWILIO AM YRFA MEWN TWRISTIAETH, LLETYGARWCH NEU DDIGWYDDIADAU?

WYT TI EISIAU ENNILL £250?

#NTG2021 #NTG2021 #NTG2021 #NTG2021 #NTG2021 #NTG2021

Sut olwg ddylai fod ar ddyfodol twristiaeth yng Nghymru?

Pa sgiliau a hyfforddiant fydd eu hangen ar y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes twristiaeth i gefnogi'r datblygiad cynaliadwy hwn?

Os wyt ti'n gallu ateb y cwestiynau hyn fe allet ti fod yn enillydd yn 2021!

Mae cystadleuaeth Next Tourism Generation yn agored i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru yng Nghymru ar gyrsiau sydd â chydran yn ymwneud â thwristiaeth neu letygarwch AC i bobl ifanc sy'n gweithio yn y diwydiant gan gynnwys pobl rhwng 16 a 25 oed sydd ar ffyrlo neu sydd wedi cael eu diswyddo yn ddiweddar.

Mae pedwar categori, a dylai cystadleuwyr gyfeirio at un maes yn eu hymateb:

- ★ Y Diwydiant twristiaeth a seilwaith
- ★ Offer a thechnoleg ddigidol
- ★ Yr amgylchedd ac ecoleg
- ★ Cymunedau lleol

I gystadlu, rhaid i ymgeiswyr ddarparu *Ymateb Digidol* i'r cwestiwn (e.e. fideo, cyflwyniad PowerPoint, gwefan neu ap neu rywbeth arall) a chwblhau Ffurflen Gais ar -lein fer gan gynnwys crynodeb 250 gair o'u Hymateb Digidol. Gall ymatebion fod yn Saesneg neu yn Gymraeg.

Gallai cystadlu yn y gystadleuaeth hon fod yn gyfle i ti ddangos dy wybodaeth, sgiliau, creadigrwydd a gyriant, ac ennill £250. Bydd enillwyr hefyd yn cael cyfle i fynyachu symposiwm sgiliau twristiaeth a seremoni wobrwyo, a'r cyfle i gael eu cydnabod gan y prif gyflogwyr.

Mae mwy o fanylion, gan gynnwys telerau ac amodau llawn a'r Ffurflen Gais i'w gweld yma:

<https://nexttourismgeneration.eu/event/ntgwales2021/>

<https://nexttourismgeneration.eu/event/ntg2021-cymraeg/>